# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS(2) 10-05 (p3))

### Dyddiad y cyfarfod: 19 Hydref 2005

### Amser y cyfarfod: 09:00 am tan 12:00 pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Y Gweinidog Dros Ddiwylliant, Y Gymraeg A Chwaraeon

### 1. Diwylliant

#### 1.1 Agoriad Swyddogol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Ar 17 Hydref, agorwyd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, gan Brif Weinidog Cymru. Cefais y pleser o agor y drysau am y tro cyntaf i aelodau'r cyhoedd y prynhawn hwnnw.

Mae'r amgueddfa eiconig hon, wedi'i ddylunio gan benseiri a dylunwyr o fri, yn cyflwyno hanes Cymru o ran ei diwydiant a'i harloesi o gyfnod y Chwyldro Diwydiannol pan ddaeth Cymru yn genedl ddiwydiannol flaenaf y byd. Mae'n adrodd hanes treftadaeth diwydiannol a morol Cymru ac effaith hynny ar economi a chymdeithas heddiw. Mae'r Amgueddfa wedi'i chynllunio nid yn unig i ddiddanu ac i addysgu am yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, ond hefyd sut y mae'n berthnasol i'r presennol ac i'r dyfodol.

Mae'r adeilad trawiadol newydd hwn wedi'i gynllunio gan Benseiri Wilkinson Eyre (dyfarnwyd Gwobr Stirling ar gyfer Pensaernïaeth i'r cwmni hwn am Bont y Mileniwm yn Gateshead) ac mae'n ymgorffori rhan helaeth o warws Rhestredig Gradd II, cyngartref Amgueddfa Forol a Diwydiannol Abertawe.

Mae orielau newydd yn gwneud defnydd helaeth o dechnoleg ryngweithiol gyfrifiadurol i gyflwyno hanes economaidd a chymdeithasol Cymru gerbron cynulleidfa yr 21 ganrif. Rhennir yr arddangosfa yn adrannau thematig, sy'n cyfuno i ffurfio darlun o sut y daeth Cymru'n bwerdy'r Chwyldro Diwydiannol a sut y mae hynny wedi arwain at sefyllfa bresennol y wlad heddiw.

Dyfarnwyd £11m i'r prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sef y grant mwyaf a ddyfarnwyd ganddo yng Nghymru hyd yn hyn. Mae cymorth pellach wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a

chronfeydd Amcan 1 yr UE, yn ogystal â chan AOCC a Dinas a Sir Abertawe.

### 1.2 Arddangosfa Wynebau Cymru yng Nghastell Bodelwyddan, o 8 Hydref 2005 tan 12 Chwefror 2006.

Lansiais arddangosfa Wynebau Cymru yng Nghastell Bodelwyddan - arddangosfa gyntaf Celf Cymru Gyfan, sef Rhaglen Bartneriaeth Celfyddydau Gweledol yr Amgueddfa Genedlaethol. Bydd y rhaglen yn arddangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol mewn pum oriel ranbarthol: Canolfan Grefftau Rhuthun, Oriel Mostyn yn Llandudno, Oriel Davies yn y Drenewydd, Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe a Chastell Bodelwyddan. Bydd yr arddangosfa hon yn cynnwys gweithiau pwysig o gasgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a'r Oriel Bortreadau Genedlaethol. Mae’r gwaith celf a ddewiswyd yn berthnasol i Ogledd Cymru ac mae’n canolbwyntio ar nifer o Gymry dylanwadol o'r 17eg i'r 20fed ganrif.

Mae’r arddangosfa'n ystyried cwestiwn hunaniaeth ac yn cynnwys portreadau a delweddau traddodiadol o ffigyrau hanesyddol, yn ogystal â gweithiau'n adlewyrchu cymdeithas a diwylliant Cymru, yn eu plith bortreadau’r ugeinfed ganrif o Lloyd George ac Aneirin Bevan.

Mae rhaglen addysg ac allgymorth gynhwysfawr yn ategu'r arddangosfa.

### 1.3. Rhwydwaith Archifau Cymru (RhAC)

Lansiais Rwydwaith Archifau Cymru (RhAC) yn Stadiwm y Mileniwm ar 22 Medi, sef yr union ddyddiad y trosglwyddwyd y neges gyntaf ar y di-wifr o'r DU (yn ardal Creunant, yn y Gogledd) i Awstralia ym 1918.

Prosiect tair blynedd pwysig yw RhAC, wedi'i ariannu gan grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Nod y Rhwydwaith yw darparu disgrifiadau o gasgliadau archif sy'n cael eu cadw mewn storfeydd archif yng Nghymru drwy gyfrwng gwefan. Dyma ganlyniad partneriaeth rhwng 20 sefydliadau sy'n cadw archifau o blith sectorau llywodraeth leol, prifysgol a chenedlaethol.

Mae bron 4,000 o ddisgrifiadau ar lefel casgliadau wedi'u paratoi ac i'w gweld ar y wefan. Mae eisoes wedi denu 125,000 o rith-ymwelwyr sydd wedi cael mynediad at dros 4 miliwn o dudalennau gwe unigol. Yn ôl holiaduron i ddefnyddwyr, roedd 56% o'r bobl hyn heb weld archif ar y we o'r blaen, ac mae 90% ohonynt bellach yn bwriadu gwneud hynny i geisio gwybodaeth bellach am yr hyn a geir ar wefan RhAC.

### 1.4. Agor yr Arddangosfa Ail-greu

Roeddwn yn hynod falch o fod yn Wrecsam ddydd Llun 26 Medi i agor Arddangosfa Ail-greu: Delweddu ein Gorffennol. Ffrwyth gwaith partneriaeth rhwng Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Cadw, CyMAL a'r Amgueddfa Brydeinig yw’r

arddanogsfa fawr hon. Canolbwynt yr arddangosfa yw Mantell Aur yr Wyddgrug, sef un o ddeg trysor pwysicaf yr Amgueddfa Brydeinig a'r enghraifft fwyaf o waith aur cynhanesyddol addurnedig y daethpwyd o hyd iddo yn Ewrop. Bydd presenoldeb Mantell yr Wyddgrug yn gwneud hon yn arddangosfa boblogaidd iawn. Mae eisoes wedi denu llawer o ddiddordeb yn y cyfryngau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi mewn gwella diogelwch a gwaith rheoli amgylcheddol yn Amgueddfa Wrecsam drwy gynllun grant Cyfoeth Cymru Gyfan a reolir gan CyMAL. Rwy'n falch iawn ein bod wedi llwyddo i ddod â'r trysor nodedig hwn yn ôl i'r ardal y canfuwyd ef ynddi.

## 1.5. Tai a Hanes ym Mers Cymru

Ar 22 Medi, lansiais gyhoeddiad newydd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sef Houses and History in the March of Wales, sy'n disgrifio datblygiad tai canoloesol yn Sir Faesyfed. Wrth ymchwilio i'r hanes ar gyfer y llyfr hwn, darganfuodd y Comisiwn - gyda thystiolaeth newydd yn deillio o gylchoedd coed - y ty hynaf yng Nghymru a adeiladwyd ym 1402 yn Hafodygarreg ger Erwd.

## 1.6. Y Strategaeth Ddiwylliant

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Diwylliant, cytunais i roi amserlen ar gyfer datblygiad y Strategaeth Ddiwylliant newydd. Mae'r Bwrdd Diwylliant wedi cytuno i ystyried fframwaith manwl ar gyfer y strategaeth newydd yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd. Yn yr un cyfarfod, bydd y Bwrdd yn ystyried amlinelliad o raglen, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer paratoi'r strategaeth. Byddaf yn rhoi adroddiad i aelodau'r Pwyllgor ar hynt y gwaith cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod hwn.

## 1.7 Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mae'r Ardd yn parhau i weithredu'r Strategaeth Adfer a roddwyd ar waith ganddi yn ystod 2004. Ei nod yw gweithredu rhaglen newid a gwella dros gyfnod o bum mlynedd i ddiogelu dyfodol hirdymor yr Ardd. Fel rhan o'n cefnogaeth ar gyfer y strategaeth hon, cyfrannodd Llywodraeth y Cynulliad £300,000 yn ystod 2004/05 fel rhan o gytundeb tridarn gyda Chomisiwn y Mileniwm a Chyngor Sir Caerfyrddin, a gyfrannodd £300,000 yr un. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo £150,000 pellach ar gyfer 2005/06 ac am 3 blynedd ychwanegol i gefnogi'r strategaeth.

Yn ddiweddar, mae'r ardd wedi gweld rhai o'r niferoedd uchaf o ymwelwyr yn ystod blynyddoedd diweddar. Yn ystod mis Awst, ymwelodd 24,000 â'r Ardd, y ffigur misol uchaf ers tair blynedd. Hyd yn hyn eleni, mae 91,000 o bobl wedi ymweld â'r Ardd. Mae hyn yn gynnydd o 17% ers yr un cyfnod y llynedd. Nid yw'r ffigur ar gyfer eleni yn cynnwys cyfnod y Pasg gan ei fod yn ystod mis Mawrth, ac o ganlyniad cafodd ei gynnwys yn ffigurau 2004/05.

Y cam nesaf ar gyfer yr Ardd yw diogelu buddsoddiad gan y sector preifat i gynyddu apêl yr Ardd ac i ddarparu cyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol. I wneud hyn, mae'r Ardd wedi gwneud cais i

Gyngor Sir Caerfyrddin amrywio les y safle i ganiatáu datblygiadau ychwanegol.

Bydd yn rhaid i’r rhain, wrth gwrs, fod yn ystyriol o safle ac atyniad cyfan yr Ardd a bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â fframweithiau cynllunio lleol. Mae’r Ardd yn ceisio sicrhau y bydd unrhyw welliannau yn ychwanegu gwerth, ond nid ar draul yr amgylchedd leol na’r cymunedau lleol.

Mae’r Ardd yn symud yn ei blaen yn gadarnhaol. Mae gwaith pellach i’w wneud cyn i’w dyfodol fod yn ddiogel. Fodd bynnag, gyda’n cymorth ni, a chymorth rhanddeiliaid eraill, gallaf nodi bod strategaeth yr Ardd yn datblygu’n foddhaol.

### 1.8. Gwobrau'r Diwydiant Cyhoeddi

Ddydd Sadwrn 1 Hydref, cefais y fraint o gyflwyno Gwobrau cyntaf y Diwydiant Cyhoeddi, a drefnwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru, mewn seremoni a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth. Mae’r Gwobrau yn cydnabod y gwerthwyr gorau mewn gwahanol gategorïau yn y ddwy iaith, yn ogystal â gwobr arbennig am y llyfr a fenthycwyd amlaf o lyfrgelloedd. Cyflwynais y gwobrau hyn fel rhan o wyl un-dydd a fynychwyd gan dros 400 o ddarllenwyr o bob cwr o Gymru. Cafodd hyn ei drefnu drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Llyfrau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y cyhoeddwyr, grwpiau darllen a llyfrgelloedd ledled Cymru. Tystiolaeth bellach o weithio mewn partneriaeth yn y sector hwn yw bod Cyngor Llyfrau wrthi'n datblygu gwefan newydd wedi'i seilio ar gwales.com yn benodol ar gyfer llyfrgelloedd a phobl sy’n defnyddio llyfrgelloedd, gyda phecyn ariannu gwerth £80,000 o goffrau Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o raglen ddatblygu @ Eich Llyfrgell Chi CyMAL.

### 1.9. Gwobrau Tir Na n-Og 2005

Ar 18 Hydref, cyflwynais enillwyr y tri chategori yng Ngwobrau Tir na n-Og ar gyfer llyfrau plant mewn seremoni yng Nghanolfan MiIeniwm Cymru. Cyflwynais wobrau am y llyfr Saesneg gorau, y ffuglen orau yn y Gymraeg a'r llyfr Cymraeg gorau ac eithrio ffuglen. Cyflwynir y Gwobrau bob blwyddyn gan Gyngor Llyfrau Cymru a CILIP Cymru.

## 2. Polisi Chwaraeon

### 2.1. Diogelwch ar y Mynyddoedd yn ystod y gaeaf

Ar 8 Hydref, lansiais DVD Diogelwch ar y Mynyddoedd yn ystod y gaeaf ‘Winter Essentials’ gan Gyngor Mynydda Prydain ym Mhlas y Brenin.

Mae’r DVD yn gyfraniad pwysig i ddiogelwch ar y mynyddoedd ac mae’n darparu gwybodaeth a chyngor hynod werthfawr ar y sgiliau a’r technegau sydd eu hangen ar gyfer y rheini sy’n awyddus i fentro ar ein mynyddoedd ac i’r dwr yn ystod y gaeaf.

Mae Plas y Brenin yn ganolfan arbenigedd ar lefel ryngwladol ac roedd hi’n galonogol gweld dros 100 o arweinwyr ifanc o bob cwr o’r DU yn bresennol.

### 2.2. Gala Nofio

Ar 27 Hydref, byddaf yn mynychu’r Wyl Gampau Dwr Nofio am Ddim ym Mhwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe. Mae timau o bobl ifanc o bob cwr o Gymru wedi’u dewis o’r cynlluniau Nofio am Ddim yn ystod yr haf i gystadlu yn ystod yr wyl gala hon. Mae’r pwyslais ar gystadleuwyr yn mwynhau eu hunain yn ein pwll cenedlaethol gwych.

### 2.3. Cabinet Chwaraeon

Byddaf yn cynnal Cabinet Chwaraeon y DU a fydd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 2 Tachwedd. Tessa Jowell AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn cadeirio’r digwyddiad. Bydd cynrychiolwyr o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bresennol, gan gynnwys: Richard Caborn AS, Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; Patricia Ferguson, ASA, y Gweinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon yng Ngweithrediaeth yr Alban; a David Hanson AS, Gweinidog Gwladol Gogledd Iwerddon. Bydd Cadeiryddion y pedwar cyngor chwaraeon cartref yn bresennol a Chadeirydd UK Sport. Byddaf yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod yn ystod cyfarfod nesaf y pwyllgor Diwylliant ar 17 Tachwedd.

## 3. Yr Iaith Gymraeg

### 3.1. Pecynnau Croeso 'Symud i Gymru'

Ar 13 Hydref, lansiais ein Pecynnau Croeso, "Symud i Gymru", sydd wedi'u paratoi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar gyfer y De-orllewin yng Nghaerfyrddin. Mae hyn yn dilyn lansio Pecynnau Croeso'r Gogledd-orllewin y mis diwethaf.

Mae'r Pecynnau Croeso yn ffynhonnell hynod werthfawr o wybodaeth i bobl sy'n symud i'r ardal hon o Gymru lle mae'r Gymraeg yn amlwg iawn ac yn rhan fywiog o fywyd y gymuned. Mae pobl sydd newydd symud, neu'r ystyried symud, i fyw yn yr ardal hon yn cael gwybod am natur ieithyddol a diwylliannol yr ardal a'r amryw o gyfleoedd sydd ar gael iddynt hwy a'u teuluoedd i ymdrwytho yn y Gymraeg. Mae'r pecynnau croeso'n cael eu dosbarthu gyda chydweithrediad brwd asiantwyr tai lleol ac mae'r ymateb cychwynnol i'r pecynnau wedi bod yn bositif iawn.

### 3.2. Fforwm Iaith

Fory, ym Mhorthmadog, cynhelir cyfarfod cyntaf y Fforwm Iaith sy'n argoeli i fod yn addysgiadol iawn. Bydd yn rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb yn y Gymraeg gyfnewid barn a rhannu arferion da. Rwy'n edrych ymlaen at roi adroddiad ar y Fforwm Iaith yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### 3.3. Cynllun i anfon llyfrau i Batagonia

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi trefnu anfon dros 1,000 o lyfrau a deunydd addysgiadol gwerth bron £7,000 i Batagonia i helpu i ddarparu toreth o adnoddau addysgiadol i athrawon Cymraeg yno.

Mae'r Cyngor Llyfrau a chyhoeddwyr annibynnol wedi rhoi swm o arian sy'n cyfateb i'r cymorth ariannol a roddwyd gan Gymdeithas Cymru-Ariannin a'r Cyngor Prydeinig.

Mae'r llyfrau (a deunydd cysylltiedig arall) bellach ar eu ffordd i Buenos Aires a byddant yn cael eu hanfon i Batagonia erbyn ymweliad Prif Weinidog Cymru â'r Wladfa ddiwedd mis Hydref pan fydd yn cyflwyno'r llyfrau'n swyddogol i gylch Cymraeg Trelew.

Mae'r rhodd hwn yn adnodd gwerthfawr a fydd yn helpu'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ac yn ategu'r prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i anfon athrawon o Gymru i Batagonia.

## 4. Y Polisi Celfyddydau

### 4.1. Y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd

Bydd gwaith y lleoliadau graddfa ganolig yng Nghaerdydd ar y cyd ag arian Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd yn gwella theatrau Cymru yn fawr. Rydym yn cynyddu nifer y cynhyrchiadau ac yn ehangu'r cynlluniau Noson Allan a chynlluniau teithio ar draws y ffin.

Rwyf wedi cymeradwyo cynigion i wario'r cyllid ychwanegol o £1 miliwn yn ystod 2005/06 a'r £2 filiwn ar gyfer 2006/07 ac mae nifer o Ganolfannau Celfyddydau Perfformio Rhanbarthol newydd yn cael eu sefydlu ledled Cymru, fel a ganlyn:

- Galeri, Theatr Gwynedd a Theatr Gogledd Cymru yng Ngogledd-orllewin Cymru;
- Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Theatr y Mwldan, Theatr Brycheiniog a Theatr Hafren yn y Canolbarth;
- Theatr y Grand, Abertawe, Canolfan Gelfyddydau Taliesin a Theatr Torch, Aberdaugleddau yn Ne-orllewin Cymru;
- Canolfan Gelfyddydau'r Riverfront, Casnewydd yn y De-ddwyrain;
- Dau bartneriaeth rhwng theatrau yng nghymoedd y De;
- Partneriaeth rhwng Clwyd Theatr Cymru, Theatr y Pafiliwn, y Rhyl a Phafiliwn Rhyngwladol

Brenhinol Llangollen yn y Gogledd-ddwyrain.

Rwyf wedi gofyn i’n Cyngor Celfyddydau weithio gyda Clwyd Theatr Cymru i sicrhau y cynhelir taith ychwanegol o’n theatr deithiol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

### 4.2. Canolfan Mileniwm Cymru

Pleser mawr i mi oedd bod yn bresennol yn agoriad swyddogol dau o'r cyrff celfyddydol ardderchog sydd â'u cartref yn y Ganolfan; Touch Trust, a Chanolfan Glyn John yr Academi. Cafodd y ddau agoriad groeso mawr a daeth nifer fawr ynghyd.

## 5. Ymweliadau a Chyfarfodydd Eraill

- Cynhadledd Digwyddiadau Awyr Agored Genedlaethol, Llangollen
- Noson Cyflwyno Gwobrau Pêl-droed FAW, Abertawe
- Gorsaf Radio Gymunedol GTFM, Rhydyfelin
- Colwyn Bay FC v Fleetwood Town, Cynghrair Unibond
- Cymru v Azerbaijan, Cwpan y Byd